

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

Swydd Ddisgrifiad Gweithiwr Cefnogi Teulu

Cyfrifol i:	Rheolwr Prosiect Cefnogi Pobl
Lleoliad:	Caernarfon, Gwynedd.
Cyflog:	Pwynt 17-22 (£17,506 i £20,441)
Oriau:	Llawr amser, 37 awr yr wythnos.

PWRPAS Y SWYDD

Pwrpas y swydd ydy cefnogi rhieni ifanc o dan 18 oed sy'n cael eu cyfeirio at GISDA am gymorth. Mi fydd y Gweithiwr Cefnogi Teulu yn anelu i ddatblygu uchelgeisiau'r rhieni a'u plant i fyw bywydau hapus, iach a chyflawn fel rhan o gymuned cryf a chefnogol ble fydd ganddynt y cyfle i ffynnu a mwynhau'r profiad o fod yn rhan o deulu. Bydd y Gweithiwr Cefnogi Teulu yn gweithio gyda rhieni ifanc o dan 18 i ddatblygu sgiliau ymarferol a datblygiad personol i sicrhau nad ydynt o dan anfantais oherwydd eu sefyllfa a'u hoedran.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Asesu anghenion y rhieni ifanc a chytuno ar gynllun cefnogaeth a datblygu i bob unigolyn.
- Adolygu targedau y cynllun datblygu yn gyson.
- Gwella iechyd meddwl y rhieni a'r plant yr ydym yn ymwneud gyda, yn ogystal â'u darparu gyda'r technegau a'r arfau cywir.
- Cefnogi rhieni ifanc i greu cysylltiadau ac i ddefnyddio gwasanaethau prif lif o fewn eu cymunedau.
- Cefnogi'r rhieni i ddeall beth yw perthnasau ac ymlyniad iach.
- Cydweithio efo asiantaethau eraill i sicrhau gwasanaethau holistig fydd yn rhoi canlyniadau positif i rhieni ifanc a'u plant.
- Eirioli ac ymgyrchu i sicrhau hawliau rhieni ifanc.
- Cynnig cefnogaeth ymarferol ac emosiynol a pherson ganolilg i hyrwyddo sgiliau byw yn annibynnol.
- Cyd-weithio efo a chefnogi mentoriaid cyfoed yn eu gwaith o fentora rhieni ifanc.
- Cyd-weithio gyda rhieni ifanc i drefnu a datblygu cyfres o weithgareddau i gefnogi addysg a datblygiad personol.

- Hwyluso grwpiau i rhieni ifanc.
- Hwyluso cyfleoedd i blant gymdeithasu gyda'i gilydd.
- Cydlynu gwaith asesu unedau Agored Cymru i gyd-fynd â'r gweithgareddau fydd yn cymryd lle.
- Cofnodi holl weithgareddau, asesiadau a datblygiadau yn fanwl.
- Creu rhwydweithiau cryf o fewn ardaloedd Gwynedd efo asiantaethau a gwasanaethau perthnasol.
- Bod yn ffynhonnell wybodaeth am adnoddau sydd ar gael i gefnogi rhieni ifanc yng Ngwynedd.
- Monitro a gwerthuso'r prosiect.

DYLETSWYDDAU ERAILL

- Cynnal, cadw a datblygu systemau recordio clir a chywir.
- Bod yn gyfrifol ar y cyd â'r Rheolwr Prosiect a'r Pennaeth Gwasanaethau am fonitro ac adolygu holl agweddau addysg a gweithgareddau y prosiect.
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth ystadegol a monitro yn cael ei fewnbynnu i'r cyfrifiadur yn rheolaidd.
- Annog rhieni ifanc i gymryd rhan weithredol yn natblygiad y gwasanaeth a'r gyfundrefn.
- Cydweithio gyda holl staff y Cwmni i hybu cyfuno gwasanaeth y prosiect a'r gwasanaethau eraill a gynnigir.
- Cynrychioli GISDA mewn cyfarfodydd allanol ar gais y Rheolwr Prosiect a/neu Pennaeth y Gwasanaethau.
- Darparu adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol ar gais y Rheolwr Prosiect/Pennaeth Gwasanaethau.
- Datblygu partneriaethau gydag asiantaethau eraill er mwyn datblygu'r gwasanaeth i rhieni ifanc a'u teuluoedd.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyfrannu tuag at hyfforddiant a datblygiad personol eich hun.
- Hyrwyddo agwedd gyfeillgar, ddi-ragfarn, ym mhob agwedd o'r gwaith tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, cyd-weithwyr, aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac aelodau o'r cyhoedd/asiantaethau eraill.
- Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant mewnol y Cwmni.
- Hyrwyddo nod ac amcanion y Cwmni.

- Gweithredu unrhyw ddyletswyddau rhesymol yn ôl yr angen.
- Ymlynu at holl bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol y Cwmni.
- Cyfrannu at sesiynau arolygaeth.
- Cydweithio gyda Chôd Ymarfer Cyngor Gofal Cymru.
- Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm.
- I gadw'r holl wybodaeth yn ymwneud a staff a defnyddwyr gwasanaeth yn gyfrinachol, yn unol a deddf amddiffyn data a pholisi cyfrinachedd y Cwmni.

Manyleb Person
Gweithiwr Cefnogi Teulu

HANFODOL	DYMUNOL
<p>Cymwysterau</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Addysg yn gyfatebol i o leiaf NVQ 3. 2. Profiad o weithio ym maes plant a theuluoedd. <p>Sgiliau</p> <ul style="list-style-type: none"> ✓ Sgiliau ysgrifenedig a chyfathrebu ar lafar da yn Gymraeg ac yn Saesneg. ✓ Gallu i gyflwyno gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig. ✓ Sgiliau rhyngpersonol ardderchog. ✓ Sgiliau cyfrifiadurol da. ✓ Gallu i gofnodi a chadw trefn ar wybodaeth. ✓ Agwedd hyblyg tuag at hyfforddiant 	<p>Cymwysterau</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cymwyster mewn maes perthnasol. <p>Sgiliau</p> <ul style="list-style-type: none"> ✓ Sgiliau dysgu/hyfforddi/asesu. ✓ Sgiliau penodol o gadw cofnodion ac asesu. ✓ Sgiliau gweinyddu proses ac asesu.

ac asesu.

- ✓ Gallu i weithio'n annibynnol ac i gyfrannu mewn tîm.
- ✓ Gallu i adnabod a chadw at ffiniau proffesiynol.
- ✓ Gallu i ddelio gyda gwybodaeth sensitif a chyfrinachol.
- ✓ Trwydded yrru llawn a chyfredol.

Profiad

- ✓ Ymwybyddiaeth o anghenion y rhieni ifanc.

Profiad

- ✓ Hyrwyddo a datblygu prosiect.
- ✓ Profiad o gofnodi gwariant.
- ✓ Gweithio yn y sector wirfoddol.
- ✓ Marchnata.